Educate Against Hate



Algorithmau Cyfryngau Cymdeithasol

Esboniad Educate Against Hate

HM Government

CYNNWYS

03 Ar gyfer pwy mae'r esboniad hwn?

04 Rhybudd cynnwys

04 Nodyn am yr esboniad hwn

05 Beth yw algorithmau?

06 Pam mae hyn yn berthnasol i ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant?

07 Sut ydw i'n siarad â phobl ifanc am algorithmau?

08 Hyrwyddo dealltwriaeth o ddylanwad algorithmau mewn addysg

09 Datblygu gwydnwch rhag dylanwad algorithmau

10 Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

Ar gyfer pwy mae'r esboniad hwn?

Mae'r esboniad hwn yn rhan o gyfres o ddogfennau wedi'u cynllunio i'ch helpu i ddeall a nodi amrywiaeth o faterion sy'n effeithio ar bobl ifanc. Mae'n ategu ein hesboniadau ar y canlynol:

- Incels
- Y Manosffer

Mae'r esboniad hwn yn nodi beth yw algorithmau cyfryngau cymdeithasol a'r arwyddion y gall person ifanc gael ei ddylanwadu gan algorithmau ar-lein.

Bydd yn ddefnyddiol ar gyfer:

- athrawon ysgol uwchradd
- myfyrwyr hŷn
- arweinwyr ysgolion
- personau diogelu dynodedig
- pawb sy'n gweithio mewn lleoliadau addysg sy'n destun y ddyletswydd Prevent

Bydd yr esboniad hwn yn eich helpu i ddeall:

- beth yw algorithmau cyfryngau cymdeithasol
- sut maent yn effeithio ar yr hyn sy'n cael ei weld ar-lein
- niwed posibl algorithmau, gan gynnwys hunan-niweidio ac eithafiaeth dreisgar
- beth i'w wneud os ydych yn pryderu bod algorithmau cyfryngau cymdeithasol yn cael effaith negyddol ar berson ifanc ac rydych yn pryderu am radicaleiddio



Rhybudd cynnwys

Mae'r esboniad hwn yn cynnwys:

- Cyfeiriadau at gynnwys sydd wedi'i fwriadu i annog trais a hunan-niweidio
- Cyfeiriadau at gynnwys eithafol

Byddem yn eich annog i geisio cymorth os yw unrhyw ran o'r cynnwys yn effeithio arnoch. Mae tudalen 10 y ddogfen hon yn esbonio beth i'w wneud os oes gennych bryderon am berson ifanc.

Nodyn am y ddogfen hon

Mae'r esboniad hwn yn rhoi trosolwg o'r algorithmau, eu dylanwad a sut y gall gwylio bwriadol neu anfwriadol effeithio ar farn, agweddau, ac ymddygiad pobl ifanc.

Mae prosesau algorithmig ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol yn targedu gwendidau pobl – fel unigrwydd neu deimladau o golli rheolaeth – ac yn gemeiddio cynnwys niweidiol. Gall tuedd algorithmig ar blatfformau cyfryngau cymdeithasol flaenoriaethu postiadau syfrdanol, pegynol, neu ddadleuol – ac yn aml bydd hyn yn chwyddo cynnwys a lleisiau misogynistaidd neu eithafol.

Wrth i bobl ifanc gymryd microddosau o bynciau megis hunan-niweidio neu eithafiaeth, mae'n teimlo fel adloniant iddynt. Mae safbwyntiau a syniadau ystrydebol niweidiol bellach yn cael eu normaleiddio ymhlith pobl ifanc. Mae defnydd ar-lein yn effeithio ar ymddygiad pobl ifanc all-lein, wrth i ni weld y naratifau hyn yn symud oddi ar sgriniau ac i fywyd go iawn.

Nod yr esboniad hwn yw eich helpu i ddeall sut mae'r algorithmau hyn yn gweithio a sut maent yn effeithio ar yr hyn a welir ar-lein, a beth allwch chi ei wneud i gefnogi plant.



Beth yw algorithmau?

Mae platfformau cyfryngau cymdeithasol fel Facebook, Instagram, TikTok, ac X (a elwid gynt yn Twitter) wedi dod yn rhannau annatod o'n bywydau bob dydd. Maent yn ein cysylltu â ffrindiau a theulu, yn darparu diweddariadau newyddion, ac yn ein diddanu. Ond a ydych erioed wedi meddwl sut mae'r platfformau hyn yn penderfynu pa gynnwys i'w ddangos i chi? Mae'r ateb i'w gael mewn algorithmau cyfryngau cymdeithasol.

Mae algorithmau yn offer digidol a ddefnyddir gan gwmnïau cyfryngau cymdeithasol i ddadansoddi'r hyn mae pobl yn ei hoffi a gwthio mwy o'r pethau hynny i'r bobl sy'n rhyngweithio â nhw. Maent yn defnyddio 'dysgu atgyfnerthu' i ragweld neu gynnig diddordeb defnyddwyr. Pan fydd y cynnwys yn ddiniwed – fideos coginio neu gathod – ble mae'r niwed? Ond nid yw'r algorithm yn gwahaniaethu rhwng cynnwys cadarnhaol a negyddol – mae'n chwilio am ymgysylltu a diddordeb sy'n cael ei ddangos.

Ffactorau Allweddol sy'n Dylanwadu ar Algorithmau

- Ymgysylltiad Defnyddwyr: Mae algorithmau yn blaenoriaethu cynnwys sy'n derbyn ymgysylltu uchel, fel achosion o hoffi cynnwys, sylwadau, rhannu, a gwylio. Os yw postiad yn boblogaidd ymhlith defnyddwyr, mae'n fwy tebygol o ymddangos yn eich porthiant.
- Perthnasedd: Mae platfformau yn dadansoddi eich ymddygiad yn y gorffennol, gan gynnwys y mathau o bostiadau rydych yn rhyngweithio â nhw, i ragweld beth allai fod yn ddiddorol i chi. Er enghraifft, os ydych yn aml yn gwylio fideos coginio, mae'n debyg y byddwch yn gweld mwy ohonynt.
- Amseroldeb: Mae postiadau diweddar yn cael blaenoriaeth dros rai hŷn. Mae hyn yn sicrhau bod eich porthiant yn gyfredol â'r cynnwys diweddaraf.
- Cydberthnasau: Mae cynnwys gan ffrindiau, teulu, a chyfrifon rydych yn rhyngweithio â nhw yn aml yn fwy tebygol o ymddangos yn eich porthiant. Nod platfformau cyfryngau cymdeithasol yw cryfhau cysylltiadau drwy ddangos postiadau i chi gan bobl rydych yn poeni amdanynt.
- Math o Gynnwys: Gellir blaenoriaethu gwahanol fathau o gynnwys (fideos, delweddau, testun) yn wahanol yn seiliedig ar eich dewisiadau a'ch hanes ymgysylltu.

Sut mae Algorithmau yn Effeithio ar eich Profiad

- **Cynnwys wedi'i bersonoli:** Mae algorithmau yn teilwra eich porthiant i ddangos cynnwys sy'n cyfateb i'ch diddordebau, gan wneud eich profiad cyfryngau cymdeithasol yn unigryw i chi.

- **Siambrau adlais:** Drwy ddangos cynnwys i chi sy'n debyg i'r hyn rydych wedi ymgysylltu ag ef o'r blaen, gall algorithmau greu siambrau adlais lle rydych yn gweld un safbwynt ar faterion yn unig.

- **Hysbysebu:** Mae algorithmau hefyd yn chwarae rhan sylweddol mewn hysbysebu wedi'i dargedu. Maent yn dadansoddi eich ymddygiad i ddangos hysbysebion sy'n fwy deniadol i chi.

Pam mae hyn yn berthnasol i rieni, ysgolion, colegau a darparwyr hyfforddiant?

Pan fydd plentyn neu berson ifanc yn gweld cynnwys anaddas – naill ai drwy ddod o hyd iddo, cael awgrym gan ffrindiau, neu wylio rhywbeth nad yw'n beth y mae'n esgus bod, mae'r algorithm yn cychwyn. Mae algorithmau yn gynyddol eu natur ac maent wedi'u cynllunio i ddarparu mwy a mwy o gynnwys tebyg. Po fwyaf a welir, yr uchaf yw'r siawns y bydd y cynnwys hwnnw yn dreisgar, yn eithafol, neu'n beryglus. Os mai dyna'r unig gynnwys sy'n cael ei weld, sef ffrwd ddi-baid o safbwyntiau, postiadau, a fideos amhriodol, gall hynny gamliwio'r hyn y mae'r defnyddiwr yn ei weld fel rhywbeth derbyniol neu ddeniadol.

Gall algorithmau cyfryngau cymdeithasol dargedu gwendidau pobl yn anfwriadol, gan arwain at blant a phobl ifanc yn gweld cynnwys amhriodol. Gallai hyn ymwneud â hunan-niweidio, anhwylderau bwyta, neu eithafiaeth. Gallai defnyddio cynnwys o'r fath ar-lein wedyn ddylanwadu ar ymddygiad all-lein, gan ymddangos fwyfwy gartref ac mewn amgylcheddau addysgol.



Sut ydw i'n siarad â phobl ifanc am algorithmau?

Mae deall sut mae algorithmau cyfryngau cymdeithasol yn llunio profiadau ar-lein yn hanfodol i addysgwyr sy'n arwain myfyrwyr yn y byd digidol. Er nad oes angen i chi wybod am bob platfform a dylanwadwr, mae meithrin sgyrsiau agored a meddwl cymhleth yn allweddol.

- **Meithrin trafodaeth agored:** Nid oes angen i chi wybod yr holl enwau neu dueddiadau, weithiau gall peidio â gwybod rhywbeth fod yn ffordd o agor sgwrs. Canolbwyntiwch ar annog myfyrwyr i siarad am yr hyn maent yn ei weld ar-lein. Crëwch le ar gyfer sgyrsiau beirniadol am sut mae cynnwys yn cael ei ddewis, ei hyrwyddo, a'i bersonoli gan algorithmau. Defnyddiwch ddigwyddiadau cyfoes neu dueddiadau feirol fel cyfleoedd dysgu digymell i drafod tuedd, dylanwad, a dinasyddiaeth ddigidol.

- **Gofynnwch beth maent yn ei wybod eisoes:** Anogwch y myfyrwyr i drafod yr hyn maent yn ei weld. Gofynnwch iddynt a ydynt yn sylwi ar duedd o ran yr hyn maent yn dewis ei wylio, a'r hyn sydd wedyn yn cael ei gynnig fel awgrym. Pam maent yn meddwl bod hynny'n digwydd?

- **Hyrwyddwch feddwl cymhleth:** Anogwch y myfyrwyr i gwestiynu'r hyn maent yn ei weld ar-lein. Pwy greodd hyn? Pam y cafodd ei ddangos i mi? Tynnwch sylw at y gwahaniaeth rhwng poblogrwydd a hygrededd.

- **Byddwch yn amyneddgar:** Mae newid agweddau yn broses, nid sgwrs untro. Mae'n bwysig dathlu newidiadau bach mewn meddwl yn bwysig, yn ogystal â chadw'r drws ar agor ar gyfer trafodaeth yn y dyfodol.



Hyrwyddo dealltwriaeth o ddylanwad algorithmau mewn addysg

Mae creu amgylchedd addysgol sy'n hyrwyddo arferion ar-lein iach ac sy'n atgyfnerthu sgiliau meddwl beirniadol ar draws y cwricwla, a thrwy gydol diwylliant yr ysgol, yn bwysig o ran gwrthsefyll dylanwad algorithmau.

- Addysgwch ymwybyddiaeth o algorithmau: Helpwch fyfyrwyr i ddeall bod algorithmau yn blaenoriaethu ymgysylltu, nid cywirdeb. Gall algorithmau greu siambrau adlais a dylanwadu ar eu barn.

- Integreiddiwch ddiogelwch ar-lein i'r cwricwlwm: Addysgwch fyfyrwyr sut i werthuso ffynonellau, adnabod camwybodaeth, a diogelu eu preifatrwydd.

- Adolygwch bolisïau defnydd derbyniol: Sicrhewch fod myfyrwyr yn deall polisi defnydd derbyniol yr ysgol a pham mae'n bodoli. Defnyddiwch y polisi fel sylfaen ar gyfer trafodaethau ar ddefnydd cyfrifol o dechnoleg, gan gynnwys myfyrwyr wrth lunio normau'r ystafell ddosbarth o ran defnyddio dyfeisiau ac ymddygiad ar-lein.

- Ymgysylltwch â rhieni: Rhannwch fewnwelediadau ar ddylanwad algorithmig a diogelwch ar-lein yn ystod nosweithiau rhieni neu mewn cylchlythyrau. Anogwch negeseuon cyson rhwng y cartref a'r ysgol am amser o flaen sgrin ac arferion digidol.

- Arhoswch yn wybodus, nid wedi'ch llethu: Canolbwyntiwch ar egwyddorion, nid platfformau—mae algorithmau yn newid, ond mae meddwl beirniadol yn parhau i fod yn gyson.



Datblygu gwydnwch rhag dylanwad algorithmau

Addysg cydberthynas a rhywioldeb a diogelwch ar-lein

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb yn un o elfennau gorfodol Cwricwlwm i Gymru. Mae'r Cod Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb gorfodol hwn yn cefnogi ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm. Mae'r cynnwys yn seiliedig ar linynnau dysgu cysylltiedig bras, sef:

- cydberthnasau a hunaniaeth
- iechyd rhywiol a lles
- grymuso, diogelwch a pharch

Dylai hyn ymgorffori trafod dylanwadau cymdeithasol a chyd-fynd â gofynion gorfodol y Cod yr Hyn sy'n Bwysig yn y Cwricwlwm i Gymru. Mae hyn yn cynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- gwella llythrennedd yn y cyfryngau a meddwl beirniadol
- nodi a herio syniadau niweidiol, gan gynnwys gwahaniaethu yn ei holl ffurfiau

Mae addysg cydberthynas a rhywioldeb i bobl ifanc yn eu helpu gyda'r canlynol:

- datblygu cydberthnasau iach, parchus
- llesiant meddyliol
- diogelwch ac ymwybyddiaeth ar-lein
- diogelwch personol

Dilynwch y ddolen isod i ddysgu rhagor:

Canllawiau statudol Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Canllawiau ac adnoddau i gefnogi athrawon a'r gymuned ysgol ehangach ar ardal Cadw'n Ddiogel Ar-lein Hwb



Beth i'w wneud os oes gennych bryderon

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon uniongyrchol am ddiogelwch

Os ydych yn meddwl bod rhywun mewn perygl uniongyrchol, neu os byddwch yn gweld neu'n clywed rhywbeth a allai fod yn gysylltiedig â therfysgaeth, dylech ymddiried yn eich greddf a ffonio 999 neu'r Llinell Gymorth Gwrthderfysgaeth gyfrinachol ar 0800 789 321.

Beth i'w wneud os oes gennych bryderon ynghylch radicaleiddio

Gall dylanwad algorithmau ar gyfryngau cymdeithasol arwain at bobl ifanc yn dod i gysylltiad â rhethreg eithafol, gyda'r risg y gall y rhai sy'n agored i niwed gael eu radicaleiddio. O ganlyniad, gellir atgyfeirio'r unigolion hynny i Prevent. Mae hyn weithiau ar gyfer ideoleg benodol yn unig, ond gall hefyd berthyn i'r categori ideolegau gwrthdrawiadol.

Mae'r categori hwn yn adlewyrchu achosion lle mae'r math o bryder a gyflwynir yn cynnwys elfennau o ideolegau lluosog, newidiadau rhwng ideolegau gwahanol, neu lle nad yw'r unigolyn yn cyflwyno ideoleg gydlynol ond gall fod yn agored i gael ei dynnu i mewn i derfysgaeth.

Dylai eich camau gweithredu cyntaf fod yn dilyn gweithdrefnau diogelu safonol eich lleoliad. Mae hyn yn cynnwys trafod unrhyw bryderon â pherson diogelu dynodedig eich ysgol, a allai gymryd cyngor pellach gan yr awdurdod lleol.

Cymorth ychwanegol y tu allan i'ch ysgol

Siaradwch â thîm diogelu ysgolion eich awdurdod lleol a/neu cysylltwch â'ch heddlu lleol neu ffoniwch 101 fel rhif yr heddlu nad yw'n rhif brys.

I gael rhagor o wybodaeth am beth i'w wneud os oes gennych bryderon, ewch i Educate Against Hate.

Educate Against ~~Hate~~